Cyfarwyddiaeth Adnoddau
Is-adran Archwilio Mewnol

# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol

(ar 28 Chwefror 2025)


| | |
|---|---|
| CYFLWYNIAD | 2 |
| Cefndir | 2 |
| Annibyniaeth a Gwrthrychedd | 2 |
| Datblygiad Proffesiynol Parhaus | 2 |
| Cydymffurfio â Safonau Archwilio | 3 |
| Gwybodaeth am Safonau Archwilio Mewnol yn Sector Cyhoeddus y DU | 3 |
| CRYNODEB O'R GWAITH A GYFLAWNWYD | 4 |
| Gweithgareddau Presennol | 4 |
| Adnoddau | 8 |
| Cynllun Blynyddol | 8 |
| Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg *(Ch4 2024/25 - ar 28.02.2025)* | 11 |
| Canfyddiadau Gwerth am Arian *(Ch4 2024/25 - ar 28.02.2025)* | 11 |
| PERFFORMIAD ARCHWILIO A GWERTH YCHWANEGOL | 11 |
| Gwerth Ychwanegol | 11 |
| Perfformiad | 12 |
| Gweithredu Cynllun Archwilio | 13 |
| Argymhellion | 13 |
| CASGLIAD | 14 |

| | |
|---|---|
| Atodiad A | Statws yr Adroddiad ar 28 Chwefror 2025 |
| Atodiad B | Crynodeb o’r Argymhellion |


Paratowyd gan: Chris Pyke, Rheolwr Archwilio

# ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Cefndir

Mae’r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol yn nodi perfformiad o ran y Cynllun Archwilio Mewnol. Mae’n crynhoi’r gwaith a wnaed, yr argymhellion blaenoriaeth a godwyd, y canfyddiadau critigol, tueddiadau sy’n dod i’r amlwg, a chanfyddiadau gwerth am arian perthnasol.

Mae’r adroddiad cynnydd yn cwmpasu’r cyfnod o 1 Ionawr 2025 i 28 Chwefror 2025,ac yn dilyn y diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2025. Mae’r adroddiad hwn wedi’i strwythuro i roi crynodeb o weithgareddau archwilio, adnoddau, canlyniadau, a chynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio 2024/25.

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn rhoi’r fframwaith ar gyfer gwaith archwilio bob blwyddyn ac mae'n cyd-fynd â threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, gan ymateb hefyd i unrhyw newidiadau yn y risgiau y mae’r Cyngor yn eu hwynebu yn ystod y flwyddyn.

### 1.2 Annibyniaeth a gwrthrychedd

Ni chafwyd unrhyw amhariadau ar annibyniaeth na gwrthrychedd dros y cyfnod adrodd. Mae’r is-adran Archwilio Mewnol yn adrodd i’r Rheolwr Archwilio. Cynhelir annibyniaeth sefydliadol gan nad yw'r Rheolwr Archwilio yn gyfrifol am reoli unrhyw swyddogaethau y tu hwnt i'r timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Mae'r Rheolwr Archwilio yn adrodd yn weinyddol i'r Pennaeth Cyllid ac yn swyddogaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am faterion sy'n ymwneud ag archwilio.

### 1.3 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Ar ôl ffurfioli eu hamcanion ar gyfer 2024/25, cwblhaodd y tîm eu hadolygiadau personol canol blwyddyn yn unol â’r amserlenni corfforaethol. Mae yna sylfaen gyffredinol gryf o wybodaeth a sgiliau a gydnabyddir ar draws y Tîm Archwilio Mewnol.

Mae’r tîm wedi dechrau hyfforddiant mewnol ar y safonau archwilio mewnol newydd a'r gofynion cysylltiedig sy'n dod i rym o fis Ebrill 2025 ac mae rhagor o fanylion yn yr adran isod. Mae rhaglen hyfforddi a datblygu wedi'i datblygu, a bydd ei chynnwys craidd yn cael ei

ddarparu i'r holl archwilwyr yn ystod chwarter un 2025/26, trwy hyfforddiant mewnol, sesiynau briffio a deunyddiau darllen. Bydd goruchwylio, monitro ac adolygu yn cael eu defnyddio i ymgorffori'r hyfforddiant a'r datblygiad ar draws y tîm.

1.4 Cydymffurfio â Safonau Archwilio

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) yn berthnasol i'r gwasanaeth archwilio mewnol tan 31 Mawrth 2025. Mae'r Rheolwr Archwilio yn cwblhau adolygiad mewnol blynyddol o gydymffurfiaeth â'r safonau hyn ac mae'r sefyllfa'n cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol. Mae hyn yn ychwanegol at y trefniadau a'r adrodd am sicrwydd parhaus mewn adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor.

Yn ogystal ag adolygiadau mewnol, mae'r SAMSC yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau allanol gael eu cynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan asesydd cymwys, annibynnol neu gan dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad. Cafodd yr asesiad allanol 5 mlynedd diweddaraf ei gwblhau a'i arwain gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2023, o dan arweiniad Prif Archwilydd Cynghorau Sir Fynwy / Casnewydd. Nid yw'r asesiad wedi nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfiad rhannol neu lwyr. Cynigiwyd un cam gweithredu dewisol ac fe'i gweithredwyd, yn ymwneud â chyfathrebu cwmpas ac amcanion yr archwiliad ynghyd â'r risg, o fewn allbynnau archwilio.

1.5 Gwybodaeth am Safonau Archwilio Mewnol yn Sector Cyhoeddus y DU

Yn dilyn y manylion a ddarparwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn adroddiadau cynnydd amrywiol, ac yn y sesiwn friffio i Aelodau ar 14 Ionawr 2025, mae crynodeb o'r newidiadau yn y safonau a'r gofynion archwilio fel a ganlyn:

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) presennol yn cael eu disodli gan:

a. Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (SAMB) - Mae'r Safonau hyn yn disodli Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac maent yn berthnasol i Sector Cyhoeddus y DU o fis Ebrill 2025.

yn ddarostyngedig i Ddehongliadau:

b. Y Nodyn Cymhwyso ar gyfer Sector Cyhoeddus y DU (Nodyn Cymhwyso) sydd wedi'i datblygu gan y Bwrdd Cynghori ar Safonau Archwilio Mewnol (IASAB), sydd wedi penderfynu bod y SAMB yn berthnasol i brosesau archwilio mewnol cyrff sector cyhoeddus y DU sy'n ddarostyngedig i rai gofynion a dehongliadau ychwanegol.

c. Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (Cod) - Mae hwn yn rhoi’r llwybr i fodloni'r amodau hanfodol ar gyfer llywodraethu a gynhwysir ym Mharth III o SAMB a'r Nodyn Cymhwyso. Dylai'r awdurdod esbonio sut mae'n cydymffurfio â'r Cod yn ei ddatganiad llywodraethu blynyddol.

Cafodd dadansoddiad mewnol o’r bylchau ei gynnal yn ystod chwarter tri, gan ddefnyddio rhestr wirio a gynhyrchwyd ar gyfer adolygiadau cydymffurfio’r sector cyhoeddus. Nodwyd deg cam gweithredu gofynnol fel a ganlyn, y mae pob ohonynt bellach wedi’u cwblhau.

- Diweddaru Siarter Archwilio Mewnol Ddrafft *(wedi'i chynnwys yn agenda 7.2)*
- Diweddaru Strategaeth Archwilio Ddrafft *(wedi'i chynnwys yn agenda 7.2)*
- Paratoi Dogfen Methodolegau Archwilio *(wedi'i chynnwys yn agenda 7.2)*
- Datblygu Cofnod Rheoli Awdurdodiadau Archwilio
- Diweddaru'r Asesiad Ôl-archwilio
- Diweddaru'r Ffurflen Asesiad Risg Rhagarweiniol
- Datblygu Storfa a Chynllun Hyfforddiant Archwilydd SharePoint
- Paratoi Polisi a Gweithdrefn ar Ddefnyddio Gwybodaeth
- Datblygu Ffurflen Dealltwriaeth, Cydymffurfiaeth a Chyfrinachedd Archwilwyr
- Diweddaru templedi Adroddiadau a Chylch Gorchwyl

## 2 CRYNODEB O’R GWAITH A GYFLAWNWYD

### 2.1 Gweithgareddau Presennol

Yn ystod 2024/25 hyd yma, blaenoriaethau a dull gweithredu’r Tîm Archwilio Mewnol oedd darparu cyfuniad o arweiniad a chefnogaeth reoli, ac ymgysylltu wedi’i dargedu o'r Cynllun Archwilio.

Mae'r Tîm Archwilio Mewnol wedi parhau i fod ar gael i roi cyngor ac arweiniad ar gynllunio a gweithredu rheolaethau effeithiol a newidiadau i brosesau i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn effeithiol.

Gweithgaredd allweddol yn ystod chwarter un 2024/25 oedd cyhoeddi Hunanasesiad Rheoli Risg (HRhR) wedi’i ddiweddaru ar gyfer archwilio holl ysgolion Caerdydd, ac ymgysylltu â Phenaethiaid a Llywodraethwyr ar y broses a'r gofynion ar gyfer dychwelyd. Roedd angen dychwelyd yr ymatebion yn ystod mis Hydref, ac aethpwyd ar drywydd unrhyw ymatebion na dderbyniwyd i

dargedu cyfranogiad llawn yn yr ymarfer sicrwydd. Ar ôl eu dychwelyd, cafodd yr ymatebion eu hadolygu, rhoddwyd cyngor ac arweiniad, ac mae sampl o 20 ysgol wedi'i dewis ar gyfer ymweliad a phrofion wedi'u targedu i wirio'r honiadau a wnaed a chamau hunanasesu sy'n deillio o'r asesiad. Mae'r ymweliadau hyn ar y gweill ac maent yn flaenoriaeth ar gyfer chwarter pedwar.

Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o archwiliadau a'u statws adrodd yn y flwyddyn bresennol hyd at 28 Chwefror 2025, lle cwblhawyd 35 o ymgysylltiadau archwilio newydd hyd at y cam allbwn drafft o leiaf a gorffennwyd 23 o ymgysylltiadau archwilio o'r flwyddyn flaenorol. Dangosir crynodeb o'r allbynnau a'r farn archwilio yn y flwyddyn dan sylw isod

*Ffigur 1. Allbynnau a barn archwilio (ar 28 Chwefror 2025)*

| Statws | Nifer yr archwiliadau a gwblhawyd | Barn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Effeithiol | Effeithiol gyda lle i wella | Annigonol ac angen gwelliant mawr | Anfoddhaol | Ni roddwyd barn |
| Drafft | 13 | 1 | 6 | 4 | 0 | 2 |
| Terfynol | 45 | 5 | 21 | 7 | 1 | 11 |
| CYFANSWM | 58 | 6 | 27 | 11 | 1 | 13 |
| | 35 | Ymgysylltiadau Archwilio Newydd a gwblhawyd | | | | |
| | 23 | Ymgysylltiadau Archwilio a orffennwyd o 2023/24 | | | | |

*Ffigur 2. Allbynnau a barn archwilio 2024/25 (ar 28 Chwefror 2025)*

| Rhif | Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| 1. | Camau Dilynol - Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog | Effeithiol |
| 2. | Dyraniadau, gosodiadau a lleoedd gwag | |
| 3. | Rheoli risg Newid Hinsawdd | Effeithiol gyda lle i wella |
| 4. | Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | |
| 5. | Pridiannau Tir | |
| 6. | Tîm Dyletswydd Argyfwng | |
| 7. | Gwasanaethau Glanhau | |
| 8. | Gorfodi Parcio Sifil | |
| 9. | Rheoli Trysorlys | |
| 10. | BT / LTLl / CGDG | |
| 11. | Taliadau Cydnabyddiaeth a Lwfansau Aelodau | |
| 12. | Pontydd pwyso | |
| 13. | Derbyn i Ysgolion | |
| 14. | Anghenion Dysgu Ychwanegol | |

| Rhif | Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| 15. | Cartref Plant Falconwood | |
| 16. | Cynilion Plant (Arian Poced) | |
| 17. | Ysgol Gynradd Coryton | |
| 18. | Ysgol Gynradd Danescourt | |
| 19. | Ysgol Gynradd Pentre-baen | Annigonol, angen gwelliant mawr |
| 20. | Siop Sbwriel Caban - Rheoli Contract | |
| 21. | Storfeydd Ffordd Lamby | |
| 22. | Storfa Offer ar y Cyd | |
| 23. | Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Adeiladau | |
| 24. | Rheolaethau Caffael o Dan Drothwy'r Tendr | |
| 25. | Parciau | |
| | Gwaith Archwilio gyda 'Dim Barn' | |
| 26. | Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd | Ymgynghoriaeth, ardystiad, cyngor ac arweiniad |
| 27. | Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd | |
| 28. | Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg | |
| 29. | Grant Gwella Addysg 2023/24 | |
| 30. | Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2023/24 | |
| 31. | Cyflogres ac AD – HRhR | Hunanasesiadau Rheoli Risg |
| 32. | Taliadau a Phrosesau Prynu - HRhR | |
| 33. | Adolygiad Cynghorol Storfeydd Brindley Road | Adolygiadau Cynghorol |
| 34. | Adolygiad ar ôl cau Neuadd Dewi Sant | |
| 35. | RPA Cynghorol | |
| | Archwiliadau wedi'u Cwblhau o'r Flwyddyn Flaenorol | |
| 36. | Rheoli Perfformiad - Pobl a Chymunedau | Effeithiol |
| 37. | Prif Gyfrifyddu | |
| 38. | Taliadau a Phrosesau Prynu | |
| 39. | Diogelwch cymunedol | |
| 40. | Parhad Busnes | Effeithiol gyda lle i wella |
| 41. | Copïau Wrth Gefn ac Adfer Data | |
| 42. | Ysgol Uwchradd Cathays | |
| 43. | Ysgol Uwchradd Woodlands | |
| 44. | Rheoli Digwyddiadau (Cyngor Caerdydd) | |

| Rhif | Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| 45. | Archwiliad Crud i'r Bedd | |
| 46. | Taliadau Uniongyrchol | |
| 47. | Glanhau Strydoedd | |
| 48. | Goramser yn y Gwasanaethau Ailgylchu a Chymdogaeth | |
| 49. | Cynnal a Chadw Adeiladau | |
| 50. | Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig | |
| 51. | Seiberddiogelwch (Ysgolion) – Technoleg a Reolir gan TGCh | Annigonol, angen gwelliant mawr |
| 52. | Ysgol Gynradd Kitchener | |
| 53. | Cardiau Prynu | |
| 54. | Ysgol Gynradd y Tyllgoed | |
| 55. | Cartref Plant Falconwood | Anfoddhaol |
| 56. | Gweithredu meddalwedd pont bwyso newydd | Dim barn - Adolygiadau Cynghorol |
| 57. | Caffael Technoleg Addysg Ysgolion | |
| 58. | Rheolaethau Arlwyo Ysgolion | |

Yn ogystal â'r tabl uchod, mae'r allbynnau na roddwyd barn sicrwydd arnynt a'r rhesymau dros hynny fel a ganlyn:

*Ffigur 3. Archwiliadau cyflawn heb farn sicrwydd (ar 28 Chwefror 2025)*

| Archwiliad | Sylwadau |
|---|---|
| Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd | Gwaith i gefnogi cwblhau'r Datganiad Cyfrifon, 2023/24 |
| Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd | |
| Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg | |
| Grant Gwella Addysg 2023/24 | Ardystio grant |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2023/24 | |
| Cyflogres ac AD – HRhR | Adolygiadau Hunanasesiad Rheoli Risg (HRhR) |
| Taliadau a Phrosesau Prynu - HRhR | |
| Gweithredu meddalwedd pont bwyso newydd | Adolygiadau Archwilio Cynghorol |
| Caffael Technoleg Addysg Ysgolion | |
| Rheolaethau Arlwyo Ysgolion | |
| Adolygiad Cynghorol Storfeydd Brindley Road | |
| Adolygiad ar ôl cau Neuadd Dewi Sant | |
| RPA Cynghorol | |

Dangosir statws yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn **Atodiad A.**

2.2 Adnoddau

Mae'r pwyllgor wedi cael gwybod yn flaenorol am gyfnod absenoldeb y Rheolwr Archwilio yn ystod Gorffennaf ac Awst ac am ostyngiad pellach hysbys yng nghapasiti’r tîm yn ystod chwarter pedwar, gan fod aelod o'r tîm yn derbyn triniaeth feddygol wedi'i chynllunio a fydd yn gofyn am absenoldeb hirdymor o'r gwaith. Nid oes unrhyw absenoldebau hirdymor pellach i'w hadrodd.

Ni fu unrhyw newidiadau i'r sefydliad yn ystod y cyfnod adrodd, ac mae'r holl swyddi wedi’u llenwi. Gan fod pob archwilydd gweithredol a’r cynorthwy-ydd archwilio yn cofnodi’r holl amser gwirioneddol a weithiwyd, mae gwybodaeth rheoli ddefnyddiol ar gael at ddibenion cynllunio, monitro ac adrodd. Roedd data taflenni amser yn cynnwys 1,297 diwrnod taladwy yn y flwyddyn hyd yma, yn erbyn cynllun pro-rata o 1,373 diwrnod (cyfrifir y diwrnodau pro-rata fel cyfartaledd chwarterol hafal o ddiwrnodau sydd ar gael am y flwyddyn gyfan).

Mae amser ar gael at ddibenion datblygu archwilio, ac mae un Archwilydd yn astudio at y Cymhwyster Archwilydd Systemau Gwybodaeth Ardystiedig gydag ISACA.

2.3 Cynllun blynyddol

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio 2024/25 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024. Er y caiff ei bennu’n flynyddol, mae’r Cynllun Archwilio’n addasadwy ac yn ymatebol a bydd yn destun asesiadau risg parhaus, blaenoriaethu ac adolygiadau drwy gydol y flwyddyn er mwyn cael y sicrwydd a’r cymorth gorau posibl gan reolwyr. Mae’n bosibl y caiff newidiadau yn ystod y flwyddyn eu cyflwyno, lle y bo’n briodol, er mwyn ymateb i risgiau a materion sy’n dod i’r amlwg wrth i’r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Mae un archwiliad cynghorol wedi'i ychwanegu at y Cynllun Archwilio, dan ddirprwyaeth y Rheolwr Archwilio i gymeradwyo ymgysylltiadau archwilio newydd o 10 diwrnod archwilio neu lai. Mae'r archwiliad cynghorol yn ymwneud â phrosiect awtomeiddio prosesau roboteg mewn cyfrifon taladwy, i ddefnyddio gweithwyr rhithwir (botiaid) i lanlwytho anfonebau a mewnbynnu'r data sy’n cael ei echdynnu i mewn i SAP. Mae arweinydd archwilio TG y Cyngor wedi rhoi cyngor cychwynnol, ac mae gwaith cynghorol pellach wedi'i gynnwys yng Nghynllun Archwilio drafft 2025/26, a fydd yn symud ymlaen i'r cam profi yn yr amgylchedd Cynhyrchu ar gyfer SAP.

Ar ôl cyflwyno pro rata is o'r cynllun archwilio yn chwarter un, nad yw'n anghyffredin wrth i bortffolio newydd o ymgysylltiadau archwilio gael eu gweithio arnynt, y bwriad oedd cynyddu cyflawniad y cynllun archwilio yn chwarter dau. Fodd bynnag, cafodd cyfnod absenoldeb y Rheolwr Archwilio effaith anochel ac roedd yn golygu nad oedd cynnydd cynllun archwilio chwarter dau yn cynyddu'n gymesur, o gymharu â chwarter un. Cafwyd lefel adfer targedig o gynnydd o ran y cynllun archwilio yn chwarter tri, ac mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn ffigur 7, yn Adran 3.2 – Perfformiad, a bydd ymdrech ar y cyd yn dilyn yn chwarter pedwar i wneud y mwyaf o'r cwmpas archwilio mewn meysydd allweddol.

Ar 26 Tachwedd 2024, cymeradwyodd y Pwyllgor 27 o archwiliadau i'w gohirio. Roedd hyn yn rhan o ddull blaenoriaethu i ddarparu barn archwilio flynyddol archwiliad llawn, trwy brofi systemau sylfaenol yn ddigonol, sicrhau digon o sylw mewn perthynas â meysydd archwilio llywodraethu corfforaethol wedi'u cynllunio a lledaeniad priodol o waith archwilio lefel gwasanaeth.

Bydd y pwyllgor yn ymwybodol bod y gyfran darged o'r cynllun i'w gwblhau yn 2024/25 wedi'i gosod ar 70%. Fodd bynnag, o ystyried y problemau capasiti y cyfeirir atynt yn adran 2.2 – Adnoddau, er y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gyflawni cymaint o'r gwaith archwilio â phosibl, ni fydd y targed yn cael ei gyflawni.

Mae gwaith wedi bod ar y gweill ar 37 o archwiliadau yn ystod chwarter 4, sy'n golygu bod 61% o'r cynllun archwilio wedi cael ei weithio arno ar adeg adrodd. Y bwriad yw cyhoeddi'r mwyafrif o'r archwiliadau hyn cyn diwedd mis Mawrth, a bydd unrhyw un nad yw'n cael ei gwblhau erbyn y dyddiad hwn yn cael ei gwblhau ar ddechrau 2025/26. Mae'r sefyllfa wedi'i chrynhoi yn ffigur 4 isod.

*Ffigur 4. Archwiliadau wedi'u targedu ar gyfer eu cwblhau yn ystod chwarter pedwar*

| Aseiniad | Maes y Cynllun | Statws ar 28 Chwefror 2025 |
|---|---|---|
| Rhaglenni a Phrosiectau | Archwiliadau Corfforaethol | Gwaith maes gweithredol |
| Datgan Buddiannau | | |
| Taliadau a Phrosesau Prynu - Profi yn ystod y flwyddyn | | |
| Menter Twyll Genedlaethol | | |
| Cyflogres ac AD – Profi yn Ystod y Flwyddyn | Systemau Sylfaenol | Gwaith maes gweithredol |
| Adennill Incwm (gan gynnwys Beilïod) | | |
| Cynilion Plant (Arian Poced) | Archwiliadau Ysgolion | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| Ysgol Gynradd Coryton | | |
| Ysgol Gynradd Danescourt | | |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant | | Adolygiad o'r Archwiliad |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed | | |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau | | |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | | Gwaith maes gweithredol |
| Ysgol Uwchradd Llanisien | | |
| Ysgol Gynradd Tredelerch | | |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi | | |
| Ysgol Hamadryad | | |
| Ysgol Gynradd Llanedern | | |
| Ysgol Gynradd Tongwynlais | | |
| Ysgol Greenhill | | |
| Ysgol Gynradd Llys-faen | | |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | | |
| Ysgol Uwchradd Radur | | Cynllunio Archwilio |
| Ysgol Gynradd Gabalfa | | |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern | | |
| Ysgol Meadowbank | | |
| Ysgol Gynradd Sant Padrig | | |
| Gofal Preswyl | Archwiliadau o Wasanaethau Penodol | Gwaith maes gweithredol |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | | |
| Adolygiad Cynghorol Ffreutur y Castell | | Adolygiad o'r Archwiliad |
| Gwasanaethau Llywodraethwyr | | Cynllunio Archwilio |
| Gofal Cartref | | |
| Lleoliadau Anghofrestredig | | |

| Aseiniad | Maes y Cynllun | Statws ar 28 Chwefror 2025 |
|---|---|---|
| Motocross Caerdydd | | |
| Datblygu Tai ac Adfywio - Llywodraethu Prosiectau Mawr | | |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 23/24 | Grantiau / Ardystio | Fersiwn Derfynol wedi'i Chyhoeddi |
| RPA Cynghorol | Archwiliad Cynghorol | Cyngor a Roddwyd |

Caiff archwiliadau bob amser eu dyrannu ar sail sicrwydd uchaf gydag ehangder digonol i liniaru unrhyw risg wrth ddarparu barn archwilio lawn ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.  Dangosir mesurau perfformiad yn adran 3.2 'perfformiad'.

Yn ogystal ag ymgysylltu â Chyfarwyddwyr ar gyflawni'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2024/25, mae pob cyfarwyddwr wedi bod yn ymwneud â datblygu Cynllun Archwilio drafft 2025/26. Ceir mwy o fanylion yn y papurau ar gyfer eitem 7.2 ar yr agenda.

2.4 Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg *(Ch4 2024/25 – (ar 28 Chwefror 2025)*

Mae'n braf adrodd nad oes unrhyw adroddiad drafft wedi cael ei gyhoeddi gyda'r farn 'annigonol ac angen gwelliant mawr' nac anfoddhaol yn ystod chwarter pedwar, ar 28 Chwefror 2025.

2.5 Canfyddiadau Gwerth am Arian *(Ch4 2024/25 - ar 28 Chwefror 2025)*

Ni chwblhawyd unrhyw archwiliadau ar y thema gwerth am arian yn ystod y cyfnod adrodd.  Mae gan fwyafrif llethol yr archwiliadau a gynhaliwyd gan y tîm amcanion sy'n cwmpasu sicrwydd gwerth am arian, sy'n cynnig lefel foddhaol gyffredinol o sicrwydd ar gyfer y cyfnod adrodd.  Fodd bynnag, o fewn archwiliad â barn sicrwydd is, byddai bylchau rheoli y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn rhoi sicrwydd bod amcanion y gwasanaethau hyn yn cael y sylw priodol o ran cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

## 3 PERFFORMIAD ARCHWILIO A GWERTH YCHWANEGOL

### 3.1 Gwerth Ychwanegol

Mae cyfarfodydd Rheolwr Cysylltiadau wedi parhau i gael eu cynnal bob chwarter gyda Chyfarwyddwyr a'u cynrychiolwyr yn ystod 2024/25.  Canolbwyntiwyd yn benodol ar ddeall y blaenoriaethau a'r risgiau o fewn pob tîm rheoli, a'r newidiadau i systemau neu brosesau a gynlluniwyd neu sydd ar y gweill, er mwyn cyfarwyddo cyngor archwilio a llywio'r gwaith o gynllunio digwyddiadau archwilio.

Mae adborth gan gleientiaid archwilio wedi bod yn gadarnhaol gyda boddhad o 100% a chyda 93% o gleientiaid yn sgorio meysydd eu harchwiliad fel da neu ardderchog. Fel yr adroddwyd yn chwarter un, dim ond un cleient a nododd nad oedd ei archwiliad wedi ychwanegu gwerth. Cymerwyd camau dilynol ac roedd hyn yn ymwneud â theimladau am rai sgiliau archwilio meddalach sydd wedi cael eu trafod gyda'r archwilydd fel rhan o'i ddatblygiad parhaus.

Yn yr allbynnau archwilio a gyhoeddwyd hyd yma (ar 28 Chwefror 2025), gwnaed 239 o argymhellion, a chytunwyd ar 118 o'r rhain mewn adroddiad terfynol. Mae'r holl argymhellion eraill yn cael eu hystyried gan gleientiaid archwilio trwy allbynnau archwilio drafft. Mae'r rhain wedi eu crynhoi isod:

*Ffigur 5. Argymhellion a godwyd ac a gytunwyd*

| Sgôr | Argymhellion a wnaed | Argymhellion a gytunwyd | Argymhellion sy'n cael eu hystyried |
|---|---|---|---|
| Coch | 14 | 6 | 8 |
| Coch / oren | 104 | 55 | 49 |
| Oren / gwyrdd | 98 | 48 | 50 |
| Gwyrdd | 23 | 12 | 11 |
| CYFANSWM | 239 | 121 | 118 |

3.2 Perfformiad

Fel yr amlinellir yn adran 2.1 ('Gweithgareddau Presennol'), blaenoriaethau a dull y tîm archwilio yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a dechrau cyflawni ymrwymiadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Darparwyd y sefyllfa o ran perfformiad parthed chwarter tri i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2025, gyda sylwebaeth berthnasol, ac fe'i darperir isod i gyfeirio ati cyn ystadegau chwarter pedwar a gaiff eu coladu ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Ffocws craidd y tîm yn ystod chwarter pedwar yw cyflawni'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau archwilio a restrir yn ffigur 4 i'r cam adrodd drafft. Bydd hyn yn rhoi lefel gref o sylw i'r farn flynyddol gan y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, canolbwyntir ar gwblhau archwiliadau yn brydlon a chyflawni argymhellion archwilio o fewn yr amserlenni gofynnol. Mynychodd y Rheolwr Archwilio gyfarfod yr Uwch Dîm Rheoli ar 11 Mawrth 2025 i ddarparu dadansoddiad perthnasol, i drafod perfformiad, ac i bwysleisio pwysigrwydd gwell sylw gan reolwyr yn y meysydd hyn.

*Ffigur 6.  Perfformiad yn erbyn targedau 2024/25 (hyd yma)*

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2023/24 | Targed 2024/25 | Canlyniad Ch1 | Canlyniad Ch2 | Canlyniad Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd | 62% | 70% | 8% | 16% | 28% |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau archwilio cynhyrchiol fesul CALl | 131 | 150 | 37 | 72 | 106 |
| Nifer cyfartalog yr archwiliadau wedi'u cwblhau fesul CALl | 7.93 | 9 | 1.67 | 3.46 | 4.02 |
| Canran yr allbynnau archwilio drafft a gyflawnwyd o fewn pedair wythnos | 96% | 90% | 100% | 88% | 90% |
| Canran yr argymhellion archwilio a roddwyd ar waith o fewn yr amserlen y cytunwyd arni | 74% | 80% | 76% | 66% | 62% |

3.4 Gweithredu'r Cynllun Archwilio

Yn ogystal â monitro a rheoli nifer yr archwiliadau a gynhelir, caiff archwiliadau eu dyrannu er mwyn sicrhau bod sicrwydd eang erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a bod hwnnw'n sail ar gyfer barn flynyddol y Rheolwr Archwilio.

Fel yr amlinellwyd yn adran 2.1 – Gweithgareddau Presennol, cwblhawyd tri deg pump o ymgysylltiadau archwilio newydd, ar 28 Chwefror 2025.

3.5 Argymhellion

Darperir crynodeb o'r argymhellion archwilio a'r cynnydd ar y dyddiad adrodd o fewn **Atodiad B**. Mae tracwyr argymhellion llawn ar yr argymhellion sydd ar agor, a'r rhai a gwblhawyd ers y pwyllgor diwethaf, ar gael i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy wefan SharePoint er gwybodaeth ac i gyfeirio atynt.

*Ffigur 7.  Dyddiadau diwygiedig ar gyfer rhoi argymhellion ar waith a'r statws*

| Cyfarwyddiaeth / Categori Archwilio | Nifer yr argymhellion gyda dyddiadau diwygiedig | Camau gweithredu bellach wedi'u rhoi ar waith | Camau gweithredu ar agor o hyd |
|---|---|---|---|
| Sylfaenol | 18 | 13 | 5 |
| Corfforaethol | 49 | 24 | 25 |
| Allanol a grantiau | 5 | 5 | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau | 20 | 15 | 5 |
| Gwasanaethau Plant | 28 | 27 | 1 |
| Datblygu Economaidd | 61 | 49 | 12 |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes | 36 | 24 | 12 |

| Cyfarwyddiaeth / Categori Archwilio | Nifer yr argymhellion gyda dyddiadau diwygiedig | Camau gweithredu bellach wedi'u rhoi ar waith | Camau gweithredu ar agor o hyd |
|---|---|---|---|
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | 35 | 33 | 2 |
| Pobl a Chymunedau | 1 | 1 | 0 |
| Adnoddau | 48 | 41 | 7 |
| Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol | 7 | 7 | 0 |
| Rheoli Gwastraff | 3 | 3 | 0 |
| | 311 | 242 | 69 |
| Ysgolion | 259 | 209 | 50 |
| CYFANSWM | 570 | 451 | 119 |

**DS** - Dylid nodi bod y tabl uchod yn cynrychioli'r sefyllfa ar 28 Chwefror 2025, tra bo atodiadau'r traciwr argymhellion yn dangos y sefyllfa fanwl yn erbyn pob argymhelliad ar y dyddiad agosaf posibl i bob cyfarfod Pwyllgor.

## 4 CASGLIAD

### 4.1 Crynodeb

Yn ystod chwarter tri 2024/25, blaenoriaethau a dull gweithredu'r tîm archwilio oedd darparu cyfuniad o arweiniad a chefnogaeth reoli, ac ymgysylltu wedi'i dargedu o'r Cynllun Archwilio.

Mae'r pwyllgor yn ymwybodol o faterion sydd wedi effeithio ar gapasiti'r tîm archwilio yn ystod y flwyddyn, a effeithiodd yn sylweddol ar gyflawni'r cynllun archwilio yn chwarteri un a dau. Cafwyd lefel dargedig o adfer pro rata o ran cynnydd y cynllun archwilio yn chwarter tri, ac ar yr adeg honno pennwyd blaenoriaethu'r cynllun, ac mae ymdrech gydgysylltiedig yn cael ei wneud yn ystod chwarter pedwar i wneud y mwyaf o'r cwmpas archwilio mewn meysydd allweddol.

Cafodd y gyfran darged o'r cynllun i'w gwblhau yn 2024/25 ei gosod ar 70%. Fodd bynnag, o ystyried y problemau capasiti y cyfeirir atynt yn adran 2.2 – Adnoddau, er y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gyflawni cymaint o'r gwaith archwilio â phosibl, ni fydd y targed yn cael ei gyflawni. Mae gwaith wedi bod ar y gweill ar 37 o archwiliadau yn ystod chwarter 4, sy'n golygu y gweithiwyd ar 61% o'r cynllun archwilio ar adeg adrodd. Y bwriad yw cyhoeddi'r mwyafrif o'r archwiliadau hyn cyn diwedd mis Mawrth, a bydd unrhyw un nad yw'n cael ei gwblhau erbyn y dyddiad hwn yn cael ei gwblhau ar ddechrau 2025/26.

## Statws yr Adroddiad (fel ar 28 Chwefror 2025)

*Statws yr Adroddiad (fel ar 28 Chwefror 2025)*

| Barn Archwilio | Maes Archwilio | Argymhellion Risg Uchel | | Statws (Os nad yw wedi'i Gwblhau) |
|---|---|---|---|---|
| | | Arfaethedig | Cytunwyd | |
| | Sylfaenol / Uchel | | | |
| Effeithiol | Prosesau Cyflogres ac AD (dygwyd ymlaen) | | | Drafft |
| | Rheoli Perfformiad - Pobl a Chymunedau (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Taliadau a Phrosesau Prynu (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Prif Gyfrifyddu (dygwyd ymlaen) | | | |
| Effeithiol gyda lle i wella | Rheoli Risg Newid Hinsawdd | | | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| | Rheoli Trysorlys (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Parhad Busnes (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Archwiliad Crud i'r Bedd (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | | | |
| | Pridiannau Tir | | | |
| | BT / LTLl / CGDG | | | |
| Annigonol ac angen gwelliant mawr | Storfeydd Ffordd Lamby | 1 | | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| | Rheolaethau Caffael o Dan Drothwy'r Tendr | | | |
| | Seiberddiogelwch (Ysgolion) – Technoleg a Reolir gan TGCh (dygwyd ymlaen) | 1 | 1 | |
| | Cardiau Prynu (dygwyd ymlaen) | 1 | 1 | |
| | Siop Sbwriel Caban - Rheoli Contract | 1 | 1 | |
| | Ysgol Gynradd Pentre-baen | 2 | 2 | |
| | Canolig | | | |
| Effeithiol | Dyraniadau, gosodiadau a lleoedd gwag (dygwyd ymlaen) | | | Drafft wedi'i Gyhoeddi |
| | Camau Dilynol - Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog | | | |
| | Diogelwch Cymunedol (dygwyd ymlaen) | | | |
| Effeithiol gyda lle i wella | Rheoli Cyfleusterau / Cynnal Adeilad (dygwyd ymlaen) | | | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| | Goramser Rheoli Gwastraff (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Taliadau Uniongyrchol - Plant ac Oedolion (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Tîm Dyletswydd Argyfwng | | | |
| | Cynilion Plant (Arian Poced) | | | |

| Barn Archwilio | Maes Archwilio | Argymhellion Risg Uchel | | Statws (Os nad yw wedi'i Gwblhau) |
|---|---|---|---|---|
| | | Arfaethedig | Cytunwyd | |
| | Ysgol Gynradd Coryton | | | |
| | Ysgol Gynradd Danescourt | | | |
| | Copïau Wrth Gefn ac Adfer Data (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Ysgol Uwchradd Cathays (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Glanhau Strydoedd (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Rheoli digwyddiadau (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Ysgol Uwchradd Woodlands (dygwyd ymlaen) | | | |
| | Gwasanaethau Glanhau | | | |
| | Gorfodi Parcio Sifil | | | |
| | Taliadau Cydnabyddiaeth a Lwfansau Aelodau | | | |
| | Pontydd pwyso | | | |
| | Derbyn i Ysgolion (dygwyd ymlaen) | | | |
| | ADY | | | |
| | Cartref Plant Falconwood - camau dilynol | | | |
| Annigonol ac angen gwelliant mawr | Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Adeiladau | 2 | | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| | Parciau | 3 | | |
| | Ysgol Gynradd Kitchener (dygwyd ymlaen) | 1 | 1 | |
| | Ysgol Gynradd y Tyllgoed (dygwyd ymlaen) | 1 | 1 | |
| | Storfa Offer ar y Cyd | 1 | 1 | |
| Anfoddhaol | Cartref Plant Falconwood (dygwyd ymlaen) | 4 | 4 | |
| | Grantiau / Cyfrifon / Cyrff Allanol | | | |
| Dim barn sicrwydd wedi'i rhoi | Adolygiad Cynghorol Storfeydd Brindley Road | 2 | | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| | Adolygiad ar ôl cau Neuadd Dewi Sant | | | |
| | Awtomeiddio Prosesau Robotaidd Cynghorol | | | |
| | Caffael Technoleg Addysg Ysgolion (dygwyd ymlaen) | 2 | 2 | |
| | Rheolaethau Arlwyo Ysgolion (dygwyd ymlaen) | 2 | 2 | |
| | Gweithredu meddalwedd pont bwyso newydd (dygwyd ymlaen) | 2 | 2 | |
| | Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd | Datganiad Adolygiadau Cyfrifon / Ardystiadau / Cymorth | | |
| | Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd | | | |
| | Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg | | | |

| Barn Archwilio | Maes Archwilio | Argymhellion Risg Uchel | | Statws (Os nad yw wedi'i Gwblhau) |
|---|---|---|---|---|
| | | Arfaethedig | Cytunwyd | |
| | Grant Gwella Addysg 2023/24 | | | |
| | Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2023/24 | | | |
| | Cyflogres ac AD – HRhR | Adolygiadau HRhR | | |
| | Taliadau a Phrosesau Prynu - HRhR | | | |

*Crynodeb o Argymhellion - (Argymhellion agored 'Coch' a 'Choch / Oren')*

| | | | | 'argymhellion agored' - yn ôl sgôr sicrwydd archwiliad | | | | | 'argymhelliad agored' yn ôl statws | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth / Adran** | **Nifer yr Archwiliadau** | **Nifer yr Argymhellion Coch** | **Nifer yr Argymhellion Coch/Oren** | **Nifer yr Argymhellion Effeithiol** | **Nifer yr Argymhellion Effeithiol gyda Lle i Wella** | **Nifer yr Argymhellion Annigonol ac Angen Gwelliant Mawr** | **Nifer yr Argymhellion Anfoddhaol** | **Nifer yr Argymhellion Dd/B** | **Nifer yr Argymhellion â Dyddiad Gweithredu Diwygiedig** | **Nifer yr Argymhellion lle mae'r dyddiad gweithredu wedi pasio** | **Dyddiad targed presennol ddim ar y gweill** | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Cymunedau a Thai | 4 | 1 | 7 | | 5 | 3 | | | 4 | 1 | 7 | *1 - cam gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad* |
| Gwasanaethau Plant | 1 | 1 | | | | 1 | | | 1 | 1 | 0 | *1 - dyddiad cam gweithredu wedi mynd heibio lle gofynnwyd am dystiolaeth er mwyn cau'r cam* |
| Llywodraethu Corfforaethol | 9 | 2 | 13 | | 8 | 7 | | | 14 | 1 | 14 | *1 - cam gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad* |
| Datblygu Economaidd | 9 | 2 | 19 | | 8 | 5 | | 8 | 7 | 9 | 12 | *9 - camau gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad*<br>*8 - Amherthnasol - yn ymwneud ag Archwiliadau Cynghorol* |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes | 7 | 6 | 38 | | 3 | 5 | | 36 | 10 | 36 | 8 | *5 - camau gweithredu hwyr, lle gofynnir am dystiolaeth er mwyn cau'r cam*<br>*31 - camau gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad*<br>*36 - Dd/B - yn ymwneud ag Archwiliadau Cynghorol* |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes - Ysgolion | 16 | 3 | 44 | | 27 | 20 | | | 24 | 36 | 11 | *26 - camau gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad*<br>*5 - camau gweithredu hwyr, lle mae Archwilio yn cydlynu â'r ysgol*<br>*5 - camau gweithredu hwyr, aros am dystiolaeth er mwyn cau'r camau gweithredu* |
| Allanol a Grantiau | | | | | | | | | | | | |
| Sylfaenol (Adnoddau) | | | | | | | | | | | | |
| Pobl a Chymunedau | | | | | | | | | | | | |
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | 2 | | 3 | | 3 | | | | 0 | 1 | 2 | *1 - cam gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad* |
| Adnoddau | 2 | | 3 | | 1 | 2 | | | 2 | 3 | 0 | *3 - camau gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad* |
| **CYFANSYMIAU** | **50** | **15** | **127** | **0** | **55** | **43** | **0** | **44** | **62** | **88** | **54** | |